

CYNLLUN GRANTIAU BACH CYFALAF 2025-28 Y BLYNYDDOEDD CYNNAR A GOFAL PLANT

Y BROSES YMGEISIO I DDARPARWR - GWYBODAETH DDEFNYDDIOL

Cyn cwblhau eich cais, **darllenwch y canllawiau hyn yn ofalus**. Bydd ceisiadau nad ydynt yn dilyn y gofynion neu nad ydynt yn cynnwys **yr holl ddogfennaeth ategol wrth gael eu cyflwyno** yn cael eu gwrthod. Mae'n hanfodol eich bod chi'n cyflwyno popeth gyda'i gilydd, gan gynnwys **lluniau clir o'ch amgylchedd** - po fwyaf o luniau rydych chi'n eu cyflwyno, y gorau. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os ydych chi'n gofyn am offer yn hytrach na gwaith adeiladu.

Blaenoriaethau Ariannu

Rhoddir blaenoriaeth i geisiadau sy'n bodloni o leiaf un o'r canlynol:

- Darparwyr nad ydynt wedi derbyn cyllid yn 2025–26
- Darparwyr mewn ardaloedd ar gyfer Ehangu Dechrau'n Deg (Cam 3) - Elli, Bigyn 1, Lliedi 2, Saron, Pontyberem, Tycroes, Quarter Bach, Hengoed, Glyn, Llangyderyn and Bynea 1.
- Prosiectau sy'n cynyddu nifer y lleoedd gofal plant cofrestredig

Proses ymgeisio – gwybodaeth bwysig

Bydd y paneli yn cyfarfod ar y dyddiadau canlynol. I sicrhau bod eich cais yn cael ei brosesu mewn pryd, rhaid i chi gyflwyno **eich cais a'r holl ddogfennaeth ategol heb fod yn hwyrach nag wythnos cyn dyddiad y panel:**

- Dydd Mercher 1 Gorffennaf 2026
- Dydd Mawrth 4 Awst 2026
- Dydd Mawrth 8 Medi 2026
- Dydd Iau 1 Hydref 2026
- Dydd Llun 2 Tachwedd 2026
- Dydd Mawrth 1 Rhagfyr 2026
- Dydd Mawrth 5 Ionawr 2027

Sylwer:

Os bydd llawer o geisiadau yn dod i law, efallai na fyddwch yn derbyn y dyfarniad trothwy llawn mewn unrhyw flwyddyn benodol.

Rhaid i chi gwblhau eich cais yn llawn. **Ni ddylid gadael unrhyw adran yn wag.** Gall ceisiadau gynnwys mân addasiadau fel:

- Toiledau ychwanegol i gynyddu capasiti
- Paentio ac addurno mewnol neu allanol

- Adnewyddu cegin
- Gwaith arall ar raddfa fach gyda'r bwriad o wella'r ddarpariaeth

Ceisiadau am Offer:

- Rhaid i'r holl eitemau y gofynnir amdanynt gynnwys dolen sy'n dangos yr union gynnyrch a'r gost, gan gynnwys TAW lle bo'n berthnasol.
- **Mae tystiolaeth a chostau cywir yn hanfodol.**

Dyfyniadau ar gyfer Gwaith:

- Rhaid cyflwyno dyfynbrisiau ar **bapur pennawd y cwmni** sy'n dangos:
 - Enw a chyfeiriad y busnes
 - Manylion cyswllt
 - Rhif cofrestru TAW (os yw'n berthnasol)
- Rhaid i bob dyfynbris fod wedi'i **ddyddio**, wedi'i gyfeirio'n benodol at y darparwr gofal plant, a chynnwys **dadansoddiad llawn o'r gwaith**.
- Rhaid i ddyfynbrisiau nodi'n glir a yw TAW wedi'i gynnwys yng nghyfanswm y gost.
- Rhaid i bob contractwr fod **yn Sir Gaerfyrddin**. Os na, rhaid i chi ddarparu cyfiawnhad ysgrifenedig sy'n esbonio eich dewis.
- Ar gyfer costau **dros £4,999**, mae angen tri dyfynbris tebyg.

Lluniau:

- Rhaid i'ch cais gynnwys **lluniau clir o'r ardal/ardaloedd perthnasol**.
- Er enghraifft, os ydych chi'n gofyn am offer awyr agored, rhwch luniau o'ch gofod awyr agored a'ch adnoddau cyfredol.
- Mae lluniau yn cynorthwyo aelodau'r panel yn sylweddol i asesu eich cais.

Lleoliadau ar safleoedd ysgolion:

- Rhaid i chi gael caniatâd gan **Drefniadaeth Ysgolion** (SchoolOrganisation@carmarthenshire.gov.uk)
- Mae angen cymeradwyaeth Eiddo Awdurdod Lleol ar gyfer unrhyw adnoddau sefydlog sydd wedi'u gosod ar dir yr ysgol.

Newidiadau i Contractwyr:

- Rhaid i unrhyw newidiadau annisgwyl mewn contractwr neu gyflenwr gael eu cymeradwyo ymlaen llaw gan dîm y Cynllun Grant Cyfalaf Bach.

Oedi:



- Rhaid i chi roi gwybod i'r Tîm Grantiau Bach am unrhyw oedi i'r gwaith arfaethedig.

Anghymwys:

Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau am **offer TG** neu **gerbydau**, oni bai bod y lleoliad wedi'i gofrestru o'r newydd.

Ansawdd a Hirhoedledd

Mae'r Grant Cyfalaf Bach yn cynnwys gofyniad bod rhaid i eitemau a ariennir gael isafswm oes o **bum mlynedd**. Felly, dylai ymgeiswyr ystyried gwydnwch ac addasrwydd hirdymor eitemau cyn cyflwyno cais.

Cyn cyflwyno eich cais, rhowch ystyriaeth i'r canlynol:

- A fydd modd defnyddio'r eitem yn rheolaidd am o leiaf bum mlynedd?
- A yw'r eitem yn bodloni'r holl reoliadau a safonau iechyd a diogelwch perthnasol?
- A yw'r cyflenwr yn ddarparwr cydnabyddedig o offer blynyddoedd cynnar masnachol?
- A yw cyfnod gwarant priodol wedi'i gynnwys?
- A oes dewis arall sy'n gydnaws â'r amgylchedd yn lle eitemau plastig?

Cyflenwyr ag enw da

I sicrhau bod cynhyrchion yn bodloni'r safonau gofynnol, rhaid prynu pob eitem gan gyflenwyr blynyddoedd cynnar masnachol ag enw da megis:

Hope Education, TTS, Community Playthings, COSY Direct, Cost Cutters UK, Adnoddau Blynyddoedd Cynnar neu debyg.

Gwnewch yn siŵr o'r canlynol:

Bod pob cynnyrch yn bodloni **Safonau Diogelwch** cydnabyddedig a **manylebau BSN**.

Bod pob eitem yn addas ar gyfer defnydd masnachol, nid defnydd domestig, oherwydd y nifer uchel o blant sy'n cyrchu'r lleoliad.

Ni ellir cymeradwyo eitemau o'r manwerthwyr canlynol:

IKEA, Argos, John Lewis, Amazon, ETSY, Facebook Marketplace, neu unrhyw werthwyr preifat.

Eitemau Anghymwys

Ni ellir defnyddio cyllid **ar gyfer y canlynol**:

- Byrddau plastig dan do, cadeiriau neu eitemau storio



- Dodrefn meddal (bagiau ffa, soffas, clustogau, rygiau, ac ati)
 - Matiau a Hambyrddau twff
 - Teganau bach a nwyddau traul fel dillad gwisgo i fyny, doliau, blociau, deunyddiau crefft, siswrn, gemau, jig-so, paent, neu eitemau tebyg
1. Cerbydau ac offer TG (ac eithrio darparwyr sydd newydd gofrestru)

Uchafswm Trothwyon Ariannu

Gofalwyr Plant

- Ceginau mwd awyr agored: **hyd at £400 (gan gynnwys TAW)**
- Siediau pren / man storio yn yr awyr agored: rhaid bod ganddyn nhw **warant o 5 mlynedd o leiaf**
- 4-sedd bygi neu fws i blant; **uchafswm o £1,650 (gan gynnwys TAW)**
- Seddi car: **uchafswm o £200 (gan gynnwys TAW)**
- Bydd ceisiadau yn cael eu hystyried fesul **achos**

Meithrinfeydd Dydd

- Ceginau mwd awyr agored: **hyd at £800 (gan gynnwys TAW)**
- Siediau pren / man storio yn yr awyr agored: rhaid bod ganddyn nhw **warant o 5 mlynedd o leiaf**
- 4-sedd bygi neu fws i blant; **uchafswm o £1,650 (gan gynnwys TAW)**
- Seddi car: **uchafswm o £200 (gan gynnwys TAW)**
- Bydd ceisiadau yn cael eu hystyried fesul **achos**

Sylwer - Mae'r meini prawf hyn hefyd yn berthnasol i leoliadau y tu allan i'r ysgol a lleoliadau sesiynol, yn dibynnu ar nifer y lleoedd cofrestredig a throthwyon cyllido a bennir gan Lywodraeth Cymru.

Gweler y rhestr isod, sy'n amlinellu'r wybodaeth y mae'n ofynnol i ddarparwyr ei darparu wrth lenwi'r ffurflen gais am y Cynllun Grant Cyfalaf Bach. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol i gefnogi'r broses asesu a sicrhau bod ceisiadau yn cael eu hystyried yn deg ac yn gyson. Dylai darparwyr adolygu pob gofyniad yn ofalus a darparu manylion clir, cywir a chynhwysfawr, gan gynnwys dogfennaeth ategol a thystiolaeth lle gofynnir amdanynt, er mwyn osgoi oedi wrth brosesu eu cais.

1. Rhif Cofrestru AGC
2. Enw'r Sefydliad Ymbarél a rhif aelodaeth
3. Dyddiad eich Diweddariad DEWIS Cymru diwethaf
4. Cytundeb prydles neu dystiolaeth o berchnogaeth
5. Caniatâd gan y landlord ar gyfer gwaith (os yw'n cael ei brydlesu)

6. Faint o Grant Cyfalaf Bach a ddyfarnwyd i chi yn 2025/26 (os yw'n berthnasol)
7. Disgrifiad o unrhyw waith sydd ei angen
8. Dyfynbris gan y contractwr – bydd angen 3 os yw £5000 neu fwy
9. Dolen i bob eitem y gofynnwyd amdanynt os ydych chi'n prynu offer
10. Cynllun Busnes / Gweithredol
11. Datganiad o Ddiben
12. Copi o'r cyfansoddiad / Dogfen Lywodraethol (os yw'n berthnasol)
13. Tystiolaeth o bryder AGC / Iechyd a Diogelwch (os yw'n berthnasol)
14. Ffotograffau

Ymholiadau Pellach

Os oes angen eglurhad arnoch cyn cyflwyno'ch cais, cysylltwch â:

smallgrantscheme@sirgar.gov.uk